

CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD
COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
7 EBRILL 2015, NEUADD PENMYNYDD 7.30yh

YN BRESENNOL: Cyng N Jones, A Evans, E Williams, R Davies, G Roberts, M Jones (Cyngor Sir), G Owen (Clerc)		
YMDDIHEURIADAU: Cyng D I Roberts, R Edwards, Cyng J Evans (Cyngor Sir), Cyng A Mummery (Cyngor Sir)		
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan Cyng N Jones. Cynigodd y Cadeirydd croeso i pawb.	
2	DATGAN DIDDORDEB – Dim	
3	DERBYN COFNODION Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 4 Mawrth 2015. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir.	
4	MATERION YN CODI O'R COFNODION	
4.1	Eglwys Sant Gredifael - Mae y Clerc yn disgwyl ymateb gan yr Eglwys yng Nghymru.	
4.2	<p>Dol Fraint, Star (Ilwybr) - darllenwyd ymateb gan y Cyngor Sir yn dweud " Dderbynais alwad ffon bore ma gan Mr Foulkes ynglyn a'r mater.</p> <p>Esboniodd Mr Foulkes ei fod wedi bod mewn trafodaethau gyda'r Adran Briffydd ar ol iddo dderbyn caniatad cynllunio gan fod ganddynt cynlluniau i ledu'r ffordd yn y lleoliad yma. Wedi iddo dderbyn fy llythyr, cysylltwyd gyda'r Adran Briffyrdd am diweddariad ar y bwriad ac maen't wedi ei gynghori nad ydyn't yn mynd ymlaen a'r gwaith oherwydd diffygion gyda cyllid/grant, ond nad oeddent wedi adael iddo wybod. Dywedodd Mr Foulkes na'r rheswm nad oedd wedi gwneud y llwybr oedd oherwydd buasai rhaid ei chwalu os oedd yr gwaith lledu'r ffordd yn mynd ymlaen.</p> <p>Mae Mr Foulkes ymhellach wedi esbonio fod y ffordd bellach wedi ei ddynodi yn ffordd 30 milltir yr awr ac felly mae gofynion am llain gwelededd yn llai, mae Mr Foulkes felly yn bwriadu cyflwyno cais cynllunio newydd ar gyfer ail leoli'r mynedfa yn agosach i'r annedd yn y dyfodol agos.</p> <p>Rwyf wedi gofyn i Mr Foulkes cadarnhau yr uchod yn ysgrifennedig i mi"</p>	
4.3	<p>Cyflymder Penmynydd - Darllenwyd ebost gan y Cyngor Sir: "</p> <p>Cyfeiriaf at y gwaharddiad cyflymder arbrofol 18 mis ar gyfer y ffordd uchod ac amgaeaf adroddiad gyda chanlyniadau arolygon cyflymder cyn ac ar ol y newidiadau. Yn ogystal, mae'r adroddiad yn cynnwys canlyniadau arolwg hanes damweiniau swyddogol ar y ffordd dros y r'un cyfnod.</p> <p>Cadarnhaf fod mwyafrif y pyst angenrheidiol wedi eu cadw yn eu lle ac yr argymhelliad yw bydd yr arwyddion yn cael eu hadfer i fod yn ol fel ac yr oeddynt cyn y gorchymyn arbrofol, oni bai y byddaf yn clywed yn wahanol gennyh.</p>	
	Llofnod	Cadeirydd 06.05.15

	<p>Cadarnhaf hefyd fod costau y newidiadau dros dro wedi cael eu cyfarfod o grant gan y Llywodraeth. Roedd y grant yma ar gael ar gyfer y B5420 yn unig a chafodd ei ddefnyddio i uwchraddio yr arwyddion yn rhybuddio am droedau a chyffyrdd ar y ffordd yn ogystal.</p> <p>Buaswn yn gwerthfawrogi unrhyw sylwadau sydd gennych"</p>
4.4	Beinciau - penderfyniwyd symud ymlaen a gosod y beinciau
4.5	Aelodaeth Unllais Cymru - Nid yw Unllais Cymru yn barod i newid y ffordd y maent yn cyfrifo ffioedd aelodaeth. Penderfyniwyd talu yr aelodaeth £62.00
4.6	Maes chwarae (grant) - Penderfyniwyd ail drafod y mater yn y cyfarfod nesaf. Hefyd, dywedodd Cyng E Williams bydd rhaid paratoi o flaen llaw ar gyfer grantiau sydd ar gael gan y Cyngor Sir ar diwedd y flwyddyn ariannol.
5	Gohebiaeth Cyngor Ynys Mon
	Priffyrdd
5.1	Cyflymder Penmynydd - gweler 4.3
5.2	Ymgynghoriad Gwasaneth Bws - penderfyniwyd gofyn am gwasanaeth i Borth Aethwy neu Llanfairpwll
5.3	Dol Fraint, Star (llwybr) - gweler 4.2
	Cyllid
5.4	Anglesey Charitable Trust - gwybodaeth yn unig - ffurfleni cais ar gyfer y flwyddyn presennol
6	Gohebiaeth Ychwanegol
6.1	Torri gwair y maes chwarae - Derbyniwyd prisiau torri gwair y maes chwarae gan Mr Rhys Williams. Penderfyniwyd derbyn y pris am toriadau pob bythefnos Ebrill - Medi torri a chasglu £45 yr un.
6.2	Unllais Cymru - gweler 4.5
6.3	Mrs Angharad Holmes - Darllenwyd ebost gan Mrs Holmes yn gofyn beth yw safiad diweddaraf y Cyngor ar tyrbeini gwynt? Bydd y Clerc yn ymateb.
6.4	Mrs Angharad Holmes (Cyflymder Penmynydd) - Darllenwyd ebost gan Mrs Holmes yn awgrymu bod y Cyngor yn mynd ar mater at y wasg. Bydd y Clerc yn ymateb (gweler 4.3)
6.5	Mrs Angharad Holmes (Star) - Darllenwyd ebost gan Mrs Holmes yn dweud bod gwrych yn Star angen ei dorri. Bydd y Clerc yn trosglwyddo y mater at y Cyngor Sir.
6.6	Mrs Angharad Holmes (Braint) - Darllenwyd ebost gan Mrs Holmes yn gofyn beth sydd yn cael ei wneud ynghylch Braint (fferm rhestredig Gradd 2)? - Bydd y Clerc yn trosglwyddo y mater at y Cyngor Sir.
7	MATERION ARIANNOL
8	MATERION ERAILL
8.1	Adolygu: Rheolau Cyllid, Rheolau Sefydlog, Asesiad Risg, Rheolau Mewnol. Derbyniwyd y rheolau fel y maent yn sefyll am y flwyddyn 2015/2016
	Llofnod Cadeirydd 06.05.15

8.2	Lon Garnedd Isaf - Dywedodd Cyng G Roberts bod Garnedd Ddu heb cael ei wneud - bydd y Clerc yn cysylltu a'r Cyngor Sir
8.3	Gofynwyd i'r Clerc cysylltu a Unllais Cymru i gofyn os ydynt yn fodlon trefnu cyfarfod i gwrthwynebu y peilonau
8.4	Trafodwyd cwynion am tyllau yn y ffordd tu ol i Bryn ffynnon, hefyd ar y ffordd o Star at yr A5. Bydd y Clerc yn dod a'r mater at sylw y Cyngor Sir
	Llofnod Cadeirydd 06.05.15